OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1333 (Cy. 344)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Tachwedd 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *30 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2021.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2022 neu ar ôl hynny.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p. 41. Diwygiwyd adran 60 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi, gan adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17), a Rhan 1 o Atodlen 3 iddi.

(**2**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy. 47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy. 322), 2002/3054 (Cy. 289), 2003/3211 (Cy. 304), 2004/3232 (Cy. 280), 2005/3345 (Cy. 259), 2006/3347 (Cy. 307), 2007/3343 (Cy. 295), 2008/2929 (Cy. 258), 2009/3147 (Cy. 274), 2010/2889 (Cy. 239), 2011/2610 (Cy. 283), 2012/3036 (Cy. 310), 2013/3046 (Cy. 305), 2014/3193 (Cy. 323), 2015/1905 (Cy. 277), 2016/1169 (Cy. 286), 2017/1159 (Cy. 287), 2018/1196 (Cy. 244), 2019/1399 (Cy. 246) a 2020/1366 (Cy. 302)

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

29 Tachwedd 2021

YR ATODLEN Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

**ADULT POPULATION FIGURES**

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 56,401 |
| Bridgend/Pen-y-bont ar Ogwr | 118,204 |
| Caerphilly/Caerffili | 144,061 |
| Cardiff/Caerdydd | 293,830 |
| Carmarthenshire/Sir Gaerfyrddin | 152,810 |
| Ceredigion | 60,661 |
| Conwy | 97,000 |
| Denbighshire/Sir Ddinbych | 77,165 |
| Flintshire/Sir y Fflint | 124,648 |
| Gwynedd | 101,957 |
| Isle of Anglesey/Ynys Môn | 57,101 |
| Merthyr Tydfil/Merthyr Tudful | 47,544 |
| Monmouthshire/Sir Fynwy | 77,843 |
| Neath Port Talbot/Castell-nedd Port Talbot | 116,296 |
| Newport/Casnewydd | 120,851 |
| Pembrokeshire/Sir Benfro | 102,744 |
| Powys | 109,186 |
| Rhondda Cynon Taf | 191,775 |
| Swansea/Abertawe | 199,723 |
| Torfaen | 75,369 |
| Vale of Glamorgan/Bro Morgannwg | 107,403 |
| Wrexham/Wrecsam | 107,142" |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (sef, yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) yn lle'r un bresennol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.